YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Rhif: 57/2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Ymwelwyr Tymor Tawel 2013/14 Croeso Cymru

## Ymwelwyr Diwrnod

www.cymru.gov.uk

Mai 2014



**Arolwg Ymwelwyr Tymor Tawel 2013/14 Croeso Cymru**
**Ymwelwyr Diwrnod**

**Anthony Lydall**

**Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd**

**I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:**
**Ella Hastings**
**Uwch Swyddog Ymchwil**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**
**Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest**
**Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR**

**Ffôn: 0300 061 6038**
**E-bost: ella.hastings@wales.gsi.gov.uk**
**Rhif y adroddiad: 57/2014**
**ISBN: 978-1-4734-1501-0**
**Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014**
**© Hawlfraint y Goron 2014**

# 1. Cefndir a Dull

**Beth yw Arolwg Ymwelwyr Tymor Tawel Cymru?**

1.1 Mae Croeso Cymru yn cynnal arolwg o ymwelwyr â Chymru yn ystod eu taith bob rhyw ddwy flynedd. Caiff ymwelwyr eu categoreiddio'n dair marchnad benodol: Ymwelwyr o'r DU sy'n Aros, Ymwelwyr Diwrnod ac Ymwelwyr Tramor.

1.2 Prif amcanion yr arolwg yw cael dealltwriaeth fwy manwl o broffil ymwelwyr â Chymru, bodlonrwydd â'r ymweliad, cymhelliad ar gyfer ymweld a llety a thrafnidiaeth a ddefnyddiwyd.

1.3 Tan 2013 fodd bynnag, dim ond yn ystod y tymor prysur, h.y. o'r Pasg tan fis Medi/Hydref y cynhaliwyd yr arolwg. Diben yr arolwg tymor tawel hwn yw deall os yw proffil ac ymddygiad ymwelwyr â Chymru yn ystod y tymor tawel, h.y. mis Hydref i fis Mawrth, yn wahanol i'r tymor prysur, a sut.

**Sut cynhaliwyd yr Arolwg Tymor Tawel?**

1.4 Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb mewn 26 o leoliadau samplu ledled Cymru. Defnyddiwyd pob un o'r 26 lleoliad fel pwynt samplu yn yr arolwg tymor prysur hefyd.

1.5 Dangosir y dadansoddiad o'r nifer o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul rhanbarth o Gymru (h.y. ble y cynhaliwyd y cyfweliad) isod:


| Rhanbarth o Gymru | Nifer y cyfweliadau wyneb yn wyneb |
|---|---|
| Y Gogledd | 312 |
| Y Canolbarth | 98 |
| Y De-orllewin | 177 |
| Y De-ddwyrain | 415 |
| **Cyfanswm** | **1,002** |

1.6 Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014 ar gymysgedd o ddiwrnodau gwaith a phenwythnosau, yn ystod a'r tu allan i wyliau'r ysgol.

1.7 Mae'r Crynodeb hwn yn ystyried y canlyniadau ar gyfer ymwelwyr <u>Diwrnod</u> (535 o gyfweliadau); caiff ymwelwyr sy'n aros eu trafod mewn crynodeb ar wahân.

## 2. Prif Ganfyddiadau

**Bodlonrwydd uchel drwy gydol y flwyddyn**




2.1 Nid yw cyfraddau bodlonrwydd cyffredinol â'r daith yn amrywio o dymor i dymor. Mae'r sgôr cyfartalog a roddwyd ym mhob tymor yn ffigur uchel o 9.3 / 10 – gan ddangos fod Cymru yn fan deniadol i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn.

**Nid yw'r tywydd yn effeithio ar fodlonrwydd â theithiau diwrnod**

2.2 Yn yr un modd ag ymweliadau aros, nid yw cyfraddau bodlonrwydd â theithiau diwrnod yn amrywio gyda'r tywydd. Datgelodd y gwaith ymchwil *Information Needs Research* a gynhaliwyd i Groeso Cymru yn 2013 bod gwirio'r tywydd wrth drefnu taith ddiwrnod bosibl yn cael dylanwad arwyddocaol ar ble i ymweld ag ef (e.e. dan do neu yn yr awyr agored), neu a ddylid mynd ar daith o gwbl.

**Yr angen i gael allan o'r tŷ**

2.3 Mae rhai pobl, yn enwedig teuluoedd â phlant ifanc, angen dod o hyd i bethau i'w gwneud allan o'r tŷ trwy gydol y flwyddyn. Mae'r 'tymor prysur' a'r 'tymor tawel' yn dermau amherthnasol i bobl o'r fath - maen nhw angen dod o hyd i leoedd i ymweld â nhw waeth pa dymor yw hi, waeth beth yw'r pris a waeth pa mor brysur yw hi.

2.4 Mae hwn yn wahaniaeth pwysig rhwng teithiau diwrnod a theithiau aros. Mae teithiau diwrnod yn rheidrwydd drwy gydol y flwyddyn i lawer o bobl, tra bod teithiau aros yn rheidrwydd drwy gydol y flwyddyn i rai yn unig, ac mae'r rhesymau am aros yn y tymor tawel yn aml yn ymwneud yn benodol â'r tymor (heddwch a chost is yn bennaf).

**Mae teuluoedd â phlant ifanc yn grŵp pwysig ym marchnad ymwelwyr diwrnod y tymor tawel**

2.5 Mae cyfran sylweddol (43%) o bartïon diwrnod yn deuluoedd â phlant ifanc - o'i gymharu â 33% yn y tymor prysur. Mae hyn yn cyd-fynd â chynrychiolaeth uwch y grŵp oedran 35 - 44 (29% o'r ymatebwyr) a'r angen i gael allan o'r tŷ drwy gydol y flwyddyn.

**Mae mwynhad mewn atyniadau ar ei uchaf ym mis Rhagfyr ar adeg y Nadolig**

2.6 Mae mwynhad cyffredinol mewn atyniadau ar ei uchaf ym mis Rhagfyr, pan fo'n sgorio 9.6 / 10. O edrych ar le y cyfwelwyd ymwelwyr a oedd yn fodlon iawn gydag atyniadau ym mis Rhagfyr, mae'n ymddangos ei bod yn debygol bod y bodlonrwydd uchel yn gysylltiedig â digwyddiadau Nadolig a oedd yn cael eu cynnal ar y pryd.

**Mae bodlonrwydd gyda lleoedd i fwyta/yfed yn gostwng ar ôl y Nadolig**

2.7 Mae bodlonrwydd gyda lleoedd i fwyta/yfed ar gyfartaledd sefydlog o 8.8 yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn o fis Ebrill tan fis Rhagfyr. Fodd bynnag, mae'n gostwng i 8.4 yn ystod y chwarter rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

**Mae digwyddiadau yn bwysig ar gyfer denu ymwelwyr yn y tymor tawel**

2.8 Aeth tua un o bob pump (19%) o ymwelwyr yn y tymor tawel tawel i ddigwyddiad / perfformiad penodol, o'i gymharu â dim ond 3% o ymwelwyr diwrnod yn ystod y tymor prysur. Mae angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r ffaith bod samplu yn y tymor tawel wedi ei ganolbwyntio mwy ar ddiwrnodau digwyddiad a drefnwyd mewn lleoliadau amrywiol ond, serch hynny, mae digwyddiadau yn denu ymwelwyr yn y tymor tawel. Mae'r enghreifftiau mwyaf cyffredin yn cynnwys ffeiriau bwyd, ffeiriau Nadolig a digwyddiadau Calan Gaeaf.

### Amgueddfeydd – lle poblogaidd ymhlith ymwelwyr diwrnod

2.9 Mae un o bob chwech (17%) o ymwelwyr diwrnod wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod eu taith. Dyma'r ail weithgaredd mwyaf cyffredin y cymerwyd rhan ynddo ar ôl digwyddiadau/ffeiriau â thema (18% o ymwelwyr). Mae hwn yn ganfyddiad nodedig gan nad yw amgueddfeydd hyd yn oed yn ymddangos yn y 10 gweithgaredd mwyaf poblogaidd y mae ymwelwyr sy'n aros yn cymryd rhan ynddynt.

### Mae ymwelwyr diwrnod yn fwy tebygol o fod yn ail-ymwelwyr yn y tymor tawel nag yn y tymor prysur

2.10 Mae'r rhan fwyaf (86%) o ymwelwyr diwrnod yn y tymor tawel yn ymweld dro ar ôl tro; mae 7% yn ymwelwyr newydd a 7% yn ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm. Mae hyn yn wahanol i'r tymor prysur, a ddenodd 13% o ymwelwyr newydd.

2.11 Mae'r canfyddiad hefyd yn wahanol i ymwelwyr sy'n aros o'r safbwynt nad oes unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y proffil ymwelwyr newydd/ymwelwyr sy'n ymweld am y tro cyntaf ers talwm/ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro rhwng y tymor prysur a'r tymor tawel.

### Mwy o fwriad o ddychwelyd

2.12 Mae'r mwyafrif llethol (87%) o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn dweud y byddant yn 'sicr' o ddychwelyd i Gymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn yn debyg i fwriadau ymwelwyr y tymor prysur o'r tu allan i Gymru (mae 82% 'yn sicr' yn bwriadu dychwelyd).